PWYLLGORAU GWEITHREDOL A CHANOLOG

ADRODDIAD MONITRO YMWELIADAU

PWNC:	**GWEITHGARWCH YMWELD RHWNG MIS HYDREF A MIS RHAGFYR 2019**
ADRODDIAD:	**SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD/MONITRO A CHRAFFU**
STATWS:	**PAPUR GWYBODAETH**
CYSWLLT:	**SARA NEWNES**
DYDDIAD:	**IONAWR 2020**

DIBEN

Hysbysu Pwyllgorau am weithgarwch ymweld y CIC ac ymatebion y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019.

CEFNDIR

Cynhaliwyd ymweliadau er mwyn siarad â chleifion ym maes gwasanaethau mamolaeth ac ar ward iechyd meddwl oedolion hŷn. Cynhaliwyd ymweliad brys hefyd ag Ysbyty'r Sir, Ward Rowan.

	Tudalen
Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd	2
Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019	14
Adroddiadau na chafwyd ymateb iddynt eto	26

Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – 3/2 Usk	**Dyddiad:**	9/8/2019

Dyma restr o'r materion brys a godwyd gyda'r Bwrdd Iechyd ar ddiwrnod yr ymweliad:

1. Anghenion cleifion uchel a niferoedd staffio isel.
2. Y cyfnod o amser yr oedd yn rhaid i gleifion aros cyn i rywun ymateb i seiniwr. Wrth siarad â chleifion, soniwyd y byddai staff yn ymateb i seinwyr i ofyn beth oedd y broblem. Yna byddent yn diffodd y seiniwr heb ddychwelyd i ddiwallu anghenion y claf.
3. Soniodd nifer o'r cleifion am agwedd staff a gwelwyd rhai enghreifftiau o agwedd wael gan y staff tuag at gleifion a chydweithwyr yn ystod yr ymweliad.
4. Nid oedd y ward wedi'i diogelu gan system gloi briodol a gwelwyd bod drysau, a ddylai fod ar gau, ar agor. Roedd hyn o bryder mawr oherwydd nifer y cleifion â dementia ar y ward ar adeg yr ymweliad.
5. Gwelwyd nad oedd drws mynediad i'r grisiau yn ddiogel. Nododd y staff ar y ward fod hyn yn achos pryder difrifol oherwydd nifer uchel y cleifion â dementia ar y ward.
6. Soniodd cleifion nad oedd y system prydau yn gweithio am nad oedd ganddynt yr hyblygrwydd i archebu'r hyn roeddent am ei gael, a bod y system lle roedd staff yn galw eitemau allan yn uchel a'r cleifion yn gorfod gwneud penderfyniad ar unwaith yn achosi anesmwythder.
7. Nid oedd dŵr glân, ffres ar gael i bob claf.

Gwybodaeth am y ward:

1. Roedd nifer mawr o gleifion â dementia yn cael gofal ar y ward. Gan nad ward iechyd meddwl oedolion hŷn yw'r ward, a bod staff asiantaeth a staff o wardiau eraill yn cael eu defnyddio ar adegau gwahanol, roedd y CIC am ddeall pa hyfforddiant sy'n cael ei roi i staff y ward o ran sut i ofalu am gleifion â dementia, ac a yw staff asiantaeth yn cael yr hyfforddiant hwn.

2. Mae problemau blaenorol o ran niferoedd staff isel wedi cael eu nodi ar y ward. Ar ddiwrnod yr ymweliad, nid oedd y nifer cywir o staff ar ddyletswydd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd drwy gyflwyno cam gweithredu i sicrhau bod pob aelod o staff y ward, newydd-ddyfodiaid a staff banc/asiantaeth wedi cael yr hyfforddiant ar ddementia. Crëwyd bwrdd addysg dementia hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth pob aelod o'r staff yn ogystal â chleifion/teuluoedd.

2. Mae recriwtio nyrsys cofrestredig yn parhau i fod yn her. Caewyd gwelyau a chyflwynwyd Tîm Gofal Craidd i'r ward er mwyn gwella'r sefyllfa. Mae'r model hwn yn rhyddhau nyrsys i ymgymryd â dyletswyddau nyrsio. Mae Cynorthwywyr Ward ac Ymarferwyr Cynorthwyol a nyrsys tramor wedi cael eu penodi. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos ac mae archebion bloc yn cael eu gwneud er mwyn rhoi parhad gofal i gleifion lle bo modd.

Y ward:

1. Nid oedd y wybodaeth am gwynion yn cael ei harddangos yn glir er mwyn i gleifion ac ymwelwyr ei gweld.

2. Nid oedd y rhan fwyaf o gleifion yn cael taflen wybodaeth am y ward, a dim ond un claf a ddywedodd ei fod wedi cael gwybodaeth am y ward ar lafar.

3. Gwelwyd bod rhwd yn un o'r ystafelloedd cawod.

4. Gwelwyd bod drysau a oedd yn arddangos arwyddion i'w cadw ar gau yn cael eu dal ar agor, ac nid oedd yn bosibl cloi drws i'r grisiau.

5. Nododd cleifion broblemau o ran cyfathrebu megis problemau clyw, agwedd staff ac amseroedd aros hir i gael gwybod am ganlyniadau profion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae poster ar gyfer y broses o fynegi pryderon a thaflenni gwybodaeth bellach yn cael eu harddangos/ar gael wrth fynedfa'r ward.

2. Caiff y daflen wybodaeth am y ward ei diweddaru a bydd

Cynorthwywyr Ward yn gyfrifol am ddosbarthu taflenni, cynnal lefelau stociau a diweddaru hysbysfyrddau. Caiff posteri eu harddangos sy'n dangos yr Uwch-nyrs a Rheolwr y Ward. Caiff pob claf ei dywys o gwmpas neu rhoddir gwybodaeth iddo am y ward. Dylid gwneud hyn gyda pherthnasau hefyd.

3. Nid oes gwaith wedi'i gynllunio i adnewyddu'r ystafell gawod. Cysylltwyd â'r adran Gwaith ac Ystadau i newid y plât draen rhydlyd.

4. Newyddion diweddaraf – mae cais wedi cael ei gyflwyno ar gyfer cronfeydd. Mae dyddiad wedi'i sicrhau ar gyfer cyllid ac ar gyfer cwblhau gwaith. Caiff y risg ei lliniaru drwy osod arwyddion ar y drysau, sicrhau gofal/arsylwadau gwell ar gyfer cleifion sy'n dueddol o grwydro, atgoffa'r staff am yr angen i gadw llygad barcud ar yr allanfeydd (gan gynnwys staff anghlinigol megis clerciau'r ward) a chadw'r prif ddrysau ar gau.

5. Mae Nyrs â Chyfrifoldeb ar gael yn ddyddiol i gwrdd â chleifion a pherthnasau. Mae gwybodaeth ar gael i gefnogi cyfarfodydd ymgynghorol â chleifion a theuluoedd. Mae'r staff yn cael eu hatgoffa i gyflwyno eu hunain i gleifion a thrafod eu cynllun triniaeth. Darperir hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn barhaus i staff y ward.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau a oedd ar gael ar y ward.

2. Nid oedd pob claf yn manteisio ar unrhyw weithgareddau/cyfleusterau i'w hatal rhag diflasu a theimlo'n unig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Bydd staff y ward yn dweud wrth gleifion fod ystafell ddydd gyda theledu ar gael iddyn nhw a'u perthnasau. Mae'r daflen cleifion yn cael ei diweddaru.

2. Mae gan y ward amrywiaeth eang o gleifion a bydd y Bwrdd Iechyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu rhagor o gyfleusterau ymgysylltu sy'n diwallu anghenion y cleifion. Mae amrywiaeth o weithgareddau eisoes yn cael eu cynnal sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu a therapi. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hailbenodi ar y ward ac mae radios newydd wedi cael eu harchebu.

Ardal i gleifion:

1. Nid oedd gan bob aelod o'r staff seiniwr a oedd yn gweithio.

2. Nododd cleifion nad yw'r staff bob amser yn ymateb i seinwyr mewn modd amserol. Weithiau mae'r staff yn diffodd y seiniwr ac yn cerdded i ffwrdd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff y staff eu hatgoffa am yr angen i archwilio seinwyr yn ddyddiol ac i roi gwybod am rai nad ydynt yn gweithio ar unwaith. Caiff y staff eu hatgoffa am yr angen i gadarnhau bod seinwyr o fewn cyrraedd cleifion sy'n gallu eu defnyddio. Caiff seinwyr eu harchwilio yn rheolaidd.

2. Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn monitro bod rhywun yn ymateb i seinwyr mewn modd amserol. Caiff lefelau staffio eu hadolygu yn ddyddiol. Caiff adborth ar brofiadau cleifion ei ymgorffori yn yr Is-adran a fydd yn monitro a yw cleifion yn cael gofal amserol.

Staff:

1. Nododd cleifion nad yw pob aelod o'r staff yn cyflwyno ei hun cyn rhoi gofal neu driniaeth.

2. Nid oedd pob claf o'r farn bod y staff yn gwrando arno wrth wneud penderfyniadau.

3. Teimlai'r cleifion y byddai'r ward yn elwa ar fwy o staff am eu bod yn aros am gyfnodau hir.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd ymddygiadau proffesiynol megis cyflwyno eu hunain i gleifion cyn rhoi gofal a gwrando ar gleifion a pherthnasau wrth wneud penderfyniadau.

2. Fel uchod.

3. Cynhelir cyfarfodydd staffio dyddiol a chaiff unrhyw ddiffygion na ellir eu rheoli yn y cyfarfod eu huwchgyfeirio i'r Tîm Nyrsio Adrannol yn unol â'r broses uwchgyfeirio.

Cysur a hylendid:

1. Dywedodd rhai cleifion nad oeddent mor gyfforddus ag y gallent fod neu nad oeddent yn gallu ymolchi mor aml ag yr hoffent.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i ddefnyddio dull holistaidd o ran

hylendid cleifion a sicrhau bod cyflenwad digonol o flancedi ar gael os bydd cleifion yn gofyn am rai ychwanegol. Caiff matresi eu hadolygu'n rheolaidd a'u newid yn ôl yr angen. Bydd cyflwyno'r Tîm Gofal Craidd yn hanfodol i sicrhau bod anghenion cysur a hylendid cleifion yn cael eu diwallu.

Dillad gwely:

Dim argymhellion

Darparu prydau:

1. Dywedodd rhai cleifion fod yn well ganddynt y ffordd flaenorol o archebu prydau am nad oedd amser i ystyried nac ychwanegu eitemau ychwanegol.
2. Nododd rhai cleifion lefelau boddhad isel o ran eu prydau.
3. Nid oedd dŵr ffres ar gael i bob claf

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Ar adeg yr ymweliad, roedd y system archebu prydau newydd yn cael ei rhoi ar waith. Mae'r system hon bellach yn gweithio'n dda ac yn galluogi cleifion i gael mwy o ddewis o ran y bwyd y maent yn ei gael.
2. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i nodi pan na fydd prydau wedi cael eu gorffen ac i archwilio'r rheswm dros hynny. Caiff materion o ran ansawdd/boddhad eu huwchgyfeirio at yr Uwch-nyrs i'w huwchgyfeirio at yr adran cyfleusterau.
3. Caiff jygiau dŵr eu newid/ail-lenwi drwy gydol y dydd. Bydd Cynorthwywyr Ward yn ail-lenwi jygiau dŵr unwaith yn ychwanegol. Bydd staff y ward yn gwneud te/coffi dros nos os bydd cleifion yn gofyn am hynny.

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – 4/3 Gwent	**Dyddiad:**	9/9/2019

Y ward:

1. Nid oedd pob claf yn cael gwybodaeth am y ward mewn modd hygyrch, h.y. rhoi taflen wybodaeth i gleifion neu wybodaeth ar lafar.
2. Dim ond un toiled oedd yn hygyrch i gleifion yr oedd angen teclyn codi Stedy arnynt.
3. Ystyriwyd bod décor y ward yn anaddas i gleifion â dementia.
4. Teimlwyd y gallai'r llawr achosi perygl o faglu mewn mannau lle roedd gwaith clytio wedi cael ei wneud.
5. Nid oedd gan y ward ganllawiau i helpu cleifion i symud o gwmpas y ward yn fwy diogel.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Dylai cleifion gael cymorth i ymgyfarwyddo â'r ward yn ystod y broses dderbyn, a dylai cleifion gael eu hatgoffa yn ôl yr angen. Darperir manylion cyswllt y ward i ofalwyr ac mae taflen wrthi'n cael ei datblygu i'w rhoi i bob claf wrth gael ei dderbyn.
2. Mae asesiad Iechyd a Diogelwch o'r cyfleusterau toiled wedi cael ei gynnal ac mae'r cyfleusterau toiled yn foddhaol. Mae dewisiadau amgen yn lle teclyn codi Stedy ar gael, megis defnyddio comôd.
3. Mae'r ward wedi cael ei hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer gwaith uwchraddio yn strategaeth adnewyddu Dyfodol Clinigol.
4. Mae asesiad risg o'r llawr wedi cael ei gynnal ac mae gwaith adfer uniongyrchol wedi cael ei wneud. Mae costau ar gyfer y llawr wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau cyllid.
5. Mae costau ar gyfer canllawiau wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau cyllid.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael ar y ward i helpu i'w atal rhag teimlo'n ddiflas ac yn unig.
2. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd asesu a oedd angen cyfleusterau/gweithgareddau pellach er mwyn atal cleifion rhag teimlo'n ddiflas ac yn unig ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Dylai pob claf gael cymorth i ymgyfarwyddo â'r ward. Rhoddir manylion cyswllt y ward i ofalwyr. Mae taflen wybodaeth ar gyfer wardiau meddygol yn cael ei datblygu.

2. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion am y gweithgareddau hamdden sy'n cael eu cynnal ar y ward bob wythnos, y gweithgareddau therapiwtig sydd ar gael a'r cyfleusterau sydd gan y ward.

Ardal i gleifion:

1. Nid oedd gan gleifion fynediad i storfeydd y gellir eu cloi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nid ystyrir bod storfeydd y gellir eu cloi yn ymarferol oherwydd problemau logistaidd megis allweddi coll ac ati.

Staff:

1. Nododd cleifion nad oedd pob aelod o'r staff yn cyflwyno ei hun cyn rhoi unrhyw ofal.

2. Nid oedd pob claf o'r farn bod y staff yn gwrando arno ef na'i berthnasau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'i ofal a'i driniaeth.

3. Nid oedd pob claf o'r farn bod y staff yn gyfrinachol wrth drafod ei ofal a'i driniaeth.

4. Roedd nifer o gleifion yn teimlo nad oedd nifer y staff yn ddigonol ar gyfer eu hanghenion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i gyflwyno eu hunain.

2. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd gwrando ar gleifion a'u teuluoedd. Caiff pob penderfyniad ei wneud er budd pennaf y claf ar y cyd â'r claf, aelodau o'i deulu a staff clinigol.

3. Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei hatgoffa am bwysigrwydd bod yn gyfrinachol wrth drafod gofal a thriniaeth.

4. Roedd y lefelau staffio yn unol â'r lefelau staffio diogel ac mae Tîm Gofal Craidd yn cael ei gyflwyno ar y ward.

Cysur a hylendid:

1. Nid oedd pob claf yn gallu cynnal hylendid personol mor aml ag yr hoffai.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff pob claf ei annog i fod mor annibynnol â phosibl wrth gynnal ei breifatrwydd a'i urddas. Darperir cymorth gan nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd lle y bo angen. Bydd pob aelod o'r staff yn annog y cleifion ac yn helpu pan fo angen.

Dillad gwely:

1. Nododd y staff nad oedd digon o ddillad nos ar gael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Lle y bo'n bosibl, caiff cleifion eu hannog i ddod â'u dillad nos eu hunain. Caiff aelodau o'r teulu eu hatgoffa lle y bo'n bosibl. Mae nifer bach o ddillad nos ar gael. Fodd bynnag, weithiau darperir gwn ysbyty nes bod dillad nos glân ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cyflenwad o ddillad nos ysbyty.

Darparu prydau:

1. Nid oedd pob claf yn cael cynnig cyfleusterau hylendid dwylo cyn bwyta.

2. Nododd un claf ei fod yn ei chael hi'n anodd bwyta rhai bwydydd ac nad oedd yn cael unrhyw gymorth gan aelodau o'r staff.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae staff y ward wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd cynnig cyfleusterau golchi dwylo neu weips golchi dwylo cyn bwyta.

2. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd adnabod cleifion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod prydau bwyd a rhoi cymorth.

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – 2/3 Nantyglo	**Dyddiad:**	20/9/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Gofynnodd y CIC am wybodaeth am lefelau staffio am fod y staff wedi nodi bod y nifer llawn a oedd ar ddyletswydd ar gyfer 16 o welyau ac nid y 26 o welyau a allai fod yn cael eu defnyddio. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd 12 o welyau'n cael eu defnyddio.

2. Nid oedd gan y ward system dolen sain.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Roedd y ward wedi'i staffio ar gyfer 16 o welyau a darparodd y Bwrdd Iechyd fanylion am swyddi gwag. Defnyddir staff banc, goramser ac asiantaeth pan fo angen, a chaiff aciwtedd ei gofnodi ddwywaith y dydd gyda staff ychwanegol yn cael eu cyflenwi yn ôl yr angen.

2. Mae system dolen sain ar gael wrth y brif ddesg. Caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa am y system a'i lleoliad.

Y ward:

1. Ni welwyd bod y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos ar y ward.

2. Nid oedd pob claf nac aelod o'i deulu yn cael taflen gyda manylion am gyfleusterau'r ward, a oedd yn golygu bod rhai rhieni yn ansicr o ran yr hyn y gallent ei ddefnyddio.

3. Nododd adborth a gafwyd ei bod yn ymddangos bod problem o ran diffyg cyfathrebu rhwng meddygon, am fod un claf wedi cael gwybodaeth wahanol gan ddoctoriaid gwahanol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae gwybodaeth am Gweithio i Wella yn cael ei harddangos yng nghegin y rhieni. Caiff gwybodaeth ychwanegol ei harddangos yn yr ystafell dderbyn a'r ystafell chwarae.

2. Caiff gwybodaeth am gyfleusterau, ymweld a pholisïau'r ward ei thrafod â'r claf a'r teulu wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael ar hysbysfwrdd ym mhob ystafell ar y ward, gan gynnwys cegin y rhieni. Caiff gwybodaeth ei diweddaru a'i gwirio er mwyn sicrhau ei bod yn gywir.

3. Eglurodd y Bwrdd Iechyd y gallai cyflwr claf newid rhwng asesiadau meddygol a all olygu bod meddygon gwahanol yn rhoi gwybodaeth

wahanol. Caiff cleifion eu hasesu dros gyfnod o amser a thrafodir hyn â'u teuluoedd.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Roedd gan y ward nifer o gyfleusterau a oedd ag adnoddau digonol ac yn cael eu goruchwylio'n dda. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gydnabod y sylwadau cadarnhaol am waith addurno a chyfleusterau'r ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nid oes angen ymateb.

Ardal i gleifion:

1. Nid oedd storfeydd y gellir eu cloi ar gael.
2. Nid oedd seinwyr wal o fewn cyrraedd cleifion a oedd yn gorwedd mewn gwely. Felly, mae'n rhaid i gleifion ddibynnu ar ymwelwyr sy'n bresennol er mwyn gallu defnyddio'r seiniwr i gael cymorth.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nododd y Bwrdd Iechyd fod aelod o'r teulu yn bresennol gyda'r rhan fwyaf o gleifion bob amser, ac nad oes unrhyw geisiadau am storfeydd y gellir eu cloi wedi cael eu gwneud ar y ward pediatreg hyd yma.
2. Bydd aelod o'r teulu yn bresennol gyda'r rhan fwyaf o gleifion pediatreg bob amser. Caiff anghenion cleifion nad ydynt yn gallu cyrraedd y gloch alw eu hasesu a chânt eu nyrsio mewn ardaloedd sy'n agos at fan lle mae lefel uchel o weithgarwch nyrsio/meddygol ac, felly, gallent alw am nyrs yn hawdd pe byddai angen. Mae'r staff nyrsio yn cynnal rowndiau pwrpasol o leiaf bob awr a byddai hyn yn cynyddu i'r cleifion hyn pe byddai angen.

Staff:

1. Gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol am y staff.
2. Cafodd parhad staff ei nodi yn yr adborth fel problem.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nododd y Bwrdd Iechyd y byddai'n rhoi gwybod i'r staff am yr adborth cadarnhaol.

2. Parhad yw'r nod ond mae'r dyraniad cleifion-staff yn seiliedig ar sgiliau nyrsio ac anghenion cleifion ac felly nid yw bob amser yn gyflawnadwy. Mae'r staff yn parhau i geisio cynnal parhad nyrsio lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Darparu prydau:

1. Nid oedd y troli bwyd wedi'i blygio i mewn yn ystod amser prydau.
2. Nododd adborth nad oedd gorfod archebu prydau ar iPad a pheidio â chael copi papur o'r fwydlen i edrych arno yn fuddiol.
3. Nid oedd pob claf a'i deulu o'r farn bod dŵr ffres ar gael iddo yn ddigon rheolaidd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nid yw'r troli bwyd yn cael ei blygio i mewn fel mater o drefn am fod prydau'n cael eu dosbarthu ar unwaith ac nid ydynt yn cael eu cadw yn y troli. Mae cadw'r troli wedi'i blygio i mewn yn achosi i'r hambyrddau a'r platiau fynd yn rhy boeth i'w rhoi i blant. Os caiff amser pryd ei oedi am ba reswm bynnag, caiff y troli ei symud a'i blygio i mewn yn ddiogel.
2. Nododd adolygiad o'r broses archebu electronig y byddai'n fuddiol rhoi copi papur o'r fwydlen i blant a'u teuluoedd er mwyn iddynt allu trafod cyn archebu.
3. Mae gorsaf diodydd wedi'i lleoli yng nghanol y ward. Dangosir hyn i deuluoedd wrth i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae jwg dŵr ffres pob claf yn cael ei newid o leiaf ddwywaith y dydd. Mae diodydd amgen ar gael yn yr oergell.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019 – ymateb wedi dod i law gan y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – B4/B5	**Dyddiad:**	24/10/2019

Amgylchedd yr Ysbyty:

Dim argymhellion.

Y ward:

B4:

1. Roedd y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn dangos arwyddion o draul a byddent yn elwa ar gael eu huwchraddio.
2. Dywedodd y staff wrth y tîm ymweld fod gwaith adnewyddu wedi cael ei ohirio nes bod gwasanaethau'n symud i Ysbyty Athrofaol y Grange.

B5:

3. Roedd angen glanhau'r ffenestri yn y toiledau.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Cynhaliwyd adolygiad o'r cyfleusterau toiled ac ystafelloedd ymolchi ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio.
2. Rhoddwyd dyddiad dros dro ar gyfer gwaith adnewyddu, sef diwedd mis Chwefror 2020.
3. Cafodd y ffenestri eu glanhau ar unwaith ac maent bellach yn cael eu monitro drwy archwiliad glanhau amgylcheddol misol.

Ardal i gleifion:

B4 a B5:

1. Nid oedd gan gleifion fynediad i storfeydd y gellir eu cloi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Cynghorir cleifion o ran arian/eitemau gwerthfawr yn unol â Pholisi'r Bwrdd Iechyd. Nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi o ran eitemau coll. Bydd storfeydd y gellir eu cloi ar gael yn Ysbyty Athrofaol y Grange.

Staff:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

B4 a B5:

1. Nododd y staff fod anawsterau o ran nifer y gobenyddion ar benwythnosau yn aml.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae dillad gwely ychwanegol ar gael yn ganolog a gellir cael gafael arnynt y tu allan i oriau. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am yr angen i sicrhau bod lefelau digonol o stoc yn cael eu cynnal ac am y broses uwchgyfeirio pan fydd prinder.

Adborth gan gleifion:

Nid oedd yr holl gleifion o'r farn eu bod wedi cael dewisiadau yn ystod eu tymor cyntaf ac nid oedd yr holl gleifion o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth yn ystod eu tymor cyntaf i'w galluogi i wneud penderfyniadau ynglŷn â ble i eni eu baban.

Nid oedd yr holl gleifion yn ymwybodol y gallent ddewis ble i gael eu harchwiliadau cynenedigol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

Caiff gwybodaeth am ddewisiadau geni ei thrafod yn yr apwyntiad cyntaf ac ar ôl 10-12 wythnos o feichiogrwydd, a chaiff ei hadolygu'n barhaus ym mhob ymweliad cynenedigol.

Caiff yr holl wybodaeth, gan gynnwys dewisiadau geni, ei hebostio at bob menyw wrth drefnu ei hapwyntiad cyntaf. Os nad oes e-bost ar gael, darperir copi papur.

Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth wedi tynnu sylw at argymhellion y CIC i wella dewis a phrofiad menywod.

Adborth gan gleifion:

Nododd rhai cleifion eu bod yn gweld nifer o fydwragedd gwahanol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

Caiff bydwragedd cymunedol eu dyrannu i feddygfeydd meddygon teulu

mewn ymgais i roi parhad i fenywod. Un o'r gweledigaethau ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth fydd datblygu parhad gofal ymhellach a bydd yn dechrau ar ôl i Ysbyty Athrofaol y Grange agor.

Adborth gan gleifion:

Nododd rhai cleifion eu bod yn ei chael hi'n anodd cysylltu â'r bydwragedd cymunedol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

Caiff menywod bwynt mynediad canolog sydd ar gael 24/7. Bydd yr Uwch-reolwr Bydwreigiaeth yn cynnal archwiliad o'r broses o ddychwelyd galwadau. Caiff hyn ei fonitro drwy'r Fforwm Bydwragedd Arweiniol.

Ymweliad	Ysbyty'r Sir – Ward Rowan	**Dyddiad:**	5/11/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Dangosodd gwybodaeth ar ddiwrnod yr ymweliad fod cleifion yn profi oedi cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a bod hyn yn aml oherwydd eu bod yn aros am becynnau gofal.

2. Nodwyd nad oes gan y ward system dolen sain.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae newid i'r cyfarfodydd llif wythnosol wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yr wythnos a llai o oedi cyn trosglwyddo cleifion.

2. Mae system dolen sain ar gael yn Swyddfa Gyffredinol Ysbyty'r Sir ac yn yr adran Cleifion allanol a'r tair ward. Mae'r gwirfoddolwyr a'r staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r system.

Y ward:

1. Nid oedd pob un o'r cleifion yn cael gwybodaeth am y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Wrth dderbyn claf i'r ysbyty, bydd y staff yn ei gyflwyno i dîm y ward ac yn ei helpu i ymgyfarwyddo â'r ward. Mae hysbysfwrdd i esbonio'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r ward wrthi'n datblygu Taflen Wybodaeth i Gleifion a fydd yn nodi popeth y mae angen i gleifion ei wybod.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Mae ystafell ddydd ar gael ar y ward, ond mae'n cael ei defnyddio i storio cyfarpar.

2. Ni welwyd cleifion yn defnyddio'r ystafell ddydd ac nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau na'r gweithgareddau a oedd ar gael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r ystafell ddydd wedi cael ei gwagio ac mae cynlluniau i dynnu mwy o gyfarpar oddi yno i'w storio mewn man arall.

2. Mae'r ward wrthi'n datblygu Taflen Wybodaeth i Gleifion a fydd yn nodi'r holl gyfleusterau a gweithgareddau sydd ar gael.

Ardal i gleifion:

1. Nid oedd pob claf yn gallu cyrraedd ei seiniwr.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae nodyn atgoffa wedi cael ei ychwanegu at y briff diogelwch ac mae'r wybodaeth wedi cael ei rhannu â'r staff. Bydd archwiliadau rheolaidd ac ad hoc yn cael eu cynnal.

Staff:

1. Nid oedd pob aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn enw.
2. Roedd rhai o'r cleifion o'r farn nad oedd nifer y staff yn ddigonol yn ystod y dydd na'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae bathodynnau newydd wedi cael eu harchebu ar gyfer y tîm ac mae nodyn atgoffa wedi cael ei ychwanegu at y briff diogelwch sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd gwisgo bathodynnau enw gweladwy.
2. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ymateb manwl am adolygiad staffio, swyddi gwag a recriwtio a chadw staff.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – 3/4 Tretower	**Dyddiad:**	12/11/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Nid oedd y nifer cywir o staff ar ddyletswydd yn ystod yr ymweliad, ac roedd staff banc/asiantaeth yn cael eu defnyddio.
2. Nododd y staff fod system dolen sain ar gael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Nododd y Bwrdd Iechyd fod y nifer cywir o staff ar y ward ar ddiwrnod yr ymweliad, gan gynnwys Nyrs Gofrestredig asiantaeth. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ymateb manwl o ran swyddi gwag a recriwtio.
2. Caiff hyfforddiant ar gyfer staff craidd ei drefnu fel blaenoriaeth. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod staff y ward yn ymwybodol o'r system a chaiff taflen wybodaeth ei datblygu ar gyfer staff mewn perthynas â'r system dolen sain.

Y ward:

1. Ni welwyd bod y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos.
2. Nid oedd pob claf wedi cael taflen wybodaeth a oedd yn nodi manylion y ward.
3. Gwelwyd bod nifer o beiriannau hylendid dwylo yn wag.
4. Gwelwyd bod yr ystafelloedd cawod/ystafelloedd ymolchi cymunedol yn cynnwys eitemau ymolchi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff gwybodaeth am gwynion (Gweithio i Wella) a thaflenni gwybodaeth i gleifion eu harddangos wrth fynedfa'r ward/maent ar gael wrth fynedfa'r ward.
2. Mae aelod o'r staff wedi cael ei nodi i ddiweddau'r daflen wybodaeth i gleifion. Mae cynorthwywyr ward newydd eu penodi yn gyfrifol am ddosbarthu taflenni, cynnal lefelau stoc a diweddaru hysbysfyrddau.
3. Caiff pob peiriant hylendid dwylo ei wirio a'i lenwi. Mae cynorthwywyr ward newydd eu penodi bellach yn gyfrifol am sicrhau bod peiriannau hylendid dwylo yn cael eu llenwi a'u gwirio yn ddyddiol.
4. Cafodd eitemau ymolchi cymunedol eu tynnu ar adeg yr ymweliad.

Mae cynorthwywyr ward newydd eu penodi bellach yn gyfrifol am wirio bod yr ystafelloedd cawod/ystafelloedd ymolchi yn daclus ac nad ydynt yn cynnwys eitemau ymolchi cymunedol.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd yn ymddangos bod cleifion yn defnyddio'r ystafell ddydd ac nid oedd rhai o'r cleifion yn ymwybodol o'r cyfleusterau na'r gweithgareddau a oedd ar gael ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Bydd pob aelod o staff y ward yn annog cleifion i ddefnyddio'r ystafell ddydd a'r cyfleusterau. Caiff cleifion eu hysbysu am yr ystafell ddydd wrth gael eu derbyn i'r ward a chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn nhaflen y ward.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Staff:

1. Nid oedd pob aelod o'r staff yn cyflwyno ei hun i gleifion cyn rhoi unrhyw ofal neu driniaeth.

2. Mae llawer o'r sylwadau a wnaed gan gleifion yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn teimlo nad oes digon o staff ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae gan bob aelod o'r staff fathodyn enw ac maent yn cael eu hatgoffa yn ystod cyfnodau trosglwyddo am bwysigrwydd cyflwyno eu hunain cyn rhoi gofal.

2. Mae'r gymhareb staff wedi'i gosod ac mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn cael eu hychwanegu at y ward yn rheolaidd i gefnogi cleifion yn ddibynnol ar eu haciwtedd a'u cymhlethdod. Gellir gofyn am ragor o staff ychwanegol os oes angen. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa am yr angen i fod yn sensitif ac yn broffesiynol wrth drafod lefelau staffio o flaen cleifion.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

1. Nodwyd bod prinder gynau, cynfasau a thywelion ar y ward yn aml.

Nid oedd llawer o stoc yn y storfa dillad gwely.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Cafodd y cyflenwad dillad gwely ei uwchgyfeirio i'r adran cyfleusterau a chwblhawyd archwiliad lleol. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y cyflenwad dyddiol.

Darparu prydau:

1. Mae'n ymddangos bod cleifion mewn ardaloedd gwahanol o'r ward yn cael profiad gwahanol iawn o'r broses o ddarparu prydau.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae prydau'n cael eu darparu yn yr un ffordd ym mhob ardal ar y ward. Mae system archebu newydd wedi cael ei rhoi ar waith ac mae'n gweithio'n dda iawn, gan alluogi cleifion i gael mwy o ddewis dros y bwyd y maent yn ei gael.

Ymweliad	Ysbyty Ystrad Fawr – Ward Annwylfan	**Dyddiad:**	19/11/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Nododd y staff fod oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a bod hyn yn aml o ganlyniad i broblemau gyda lleoliadau.
2. Dywedodd y staff nad oedd gan y ward system dolen sain.
3. Er mwyn sicrhau diogelwch a phreifatrwydd cleifion, roedd cais wedi'i wneud am i glo gael ei osod ar ddrws y swyddfa nyrsio. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael ei wneud.
4. Roedd adnoddau annigonol yn yr adran lanhau yn golygu nad oedd lloriau a charpedi'n cael eu glanhau'n rheolaidd, ac yn aml roedd yn rhaid i'r staff nyrsio ymgymryd â dyletswyddau glanhau.
5. Nododd y staff fod lefelau uchel o drais ac ymddygiad ymosodol ar y ward.
6. Teimlwyd nad oedd y drysau rhwng Ward Annwylfan a Ward Tŷ Cyfannol yn ddigon cryf.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r opsiynau o ran lleoliadau yn y Fwrdeistref yn gyfyngedig i bobl y mae angen y cymorth mwyaf dwys arnynt, sy'n gallu effeithio ar amseroldeb rhyddhau claf o'r ysbyty. Gall hyn gael effaith fawr pan nad yw teuluoedd am i'w perthnasau gael eu symud y tu allan i ardal.
2. Mae system dolen sain ar gael yn ardal dderbynfa'r ward. Bydd yr Uwch-nyrs yn cysylltu â chydweithwyr yn Ysbyty Ystrad Fawr er mwyn deall yr hyn y mae wardiau eraill yn ei ddefnyddio a threfnu unrhyw hyfforddiant y gallai fod ei angen.
3. Gwnaed cais i'r adran Gwaith ac Ystadau i osod clo ar ddrws y swyddfa nyrsio.
4. Mae rhai elfennau glanhau yn rhan annatod o ddyletswyddau nyrsio, er enghraifft glanhau matresi er mwyn cydymffurfio â rheoliadau rheoli heintiau. Mae'r mater wedi cael ei godi gyda'r Tîm Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn fel rhan o adolygiad o wasanaeth y ward i'w ystyried ymhellach.
5. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn adolygu lefelau trais ac ymddygiad ymosodol

yn fewnol gyda wardiau dementia eraill yn ardal y Bwrdd Iechyd. Cynhelir adolygiadau manwl o ddigwyddiadau, gan gynnwys adolygu teledu cylch cyfyng. Ceisir cyngor gan raglen hyfforddi Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yr Adran Hyfforddi a Datblygu.

6. Mae addasrwydd y drysau wedi cael ei godi gyda'r adran Gwaith Mân. Caiff asesiad ei gynnal o ran atebion posibl.

Y ward:

1. Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd y ward yn lân, nodwyd bod un o'r toiledau cymunedol yn frwnt yn ystod yr ymweliad.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Ar adeg yr ymweliad roedd y toiled wedi cael ei ddefnyddio yn ddiweddar. Caiff toiledau eu harchwilio drwy gydol y dydd ac ymdrinnir â phroblemau cyn gynted ag y cânt eu nodi. Caiff cleifion a'u teuluoedd/ymwelwyr hefyd eu hannog i godi problemau gyda staff nyrsio fel y gellir delio â nhw'n brydlon.

Diflasu a theimlo'n unig:

Dim argymhellion.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Staff:

Dim argymhellion.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

1. Wrth wirio ansawdd y dillad gwely a oedd ar gael, nodwyd nad oedd y cynfasau yn feddal iawn.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff y dillad gwely ei olchi'n ganolog gan y Bwrdd Iechyd. Caiff y sylwadau am feddalwch y cynfasau eu hadrodd yn ôl i'r Olchfa drwy'r Rheolwr Cyfleusterau.

Darparu prydau:

Dim argymhellion.

Ymweliad	Canolfan Geni Ysbyty Ystrad Fawr	**Dyddiad:**	05/12/2019

Adborth cleifion:

1. Nid oedd yr holl gleifion o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth yn ystod eu tymor cyntaf i'w galluogi i wneud penderfyniadau am ble i eni eu baban.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Trafodir dewisiadau geni yn ystod yr apwyntiad cyntaf ac ar ôl 10-12 wythnos o feichiogrwydd, a chânt eu hadolygu'n barhaus yn ystod pob ymweliad cynenedigol fel rhan o asesiad risg bydwragedd. Caiff yr holl wybodaeth gan gynnwys dewisiadau geni ei hebostio at bob menyw wrth drefnu ei hapwyntiad cyntaf. Os nad oes e-bost ar gael, darperir copi papur. Mae taflenni Dewisiadau Geni i'w gweld ym mhob ardal. Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth wedi tynnu sylw pob bydwraig at yr adborth hwn.

Archwiliadau cynenedigol:

1. Yn ystod apwyntiadau archwiliadau cynenedigol, nid oedd yr holl gleifion o'r farn eu bod wedi cael digon o amser i gyfathrebu'n effeithiol, yn enwedig os oedd y claf yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r adborth o ran cleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu brysio neu heb gael digon o amser wedi cael ei adrodd yn ôl i'r bydwragedd cymunedol. Mae bydwragedd wedi cael eu hatgoffa am yr angen i gefnogi menywod a allai ei chael hi'n anodd cyfathrebu a chaniatáu mwy o amser o bosibl neu ystyried cymorth arall er mwyn hwyluso'r cyfathrebu.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019 – *yn aros am ymateb i'r adroddiad*

	Disgwyl ymateb
Dim yn weddill	

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019 – *adroddiad heb ei gyflwyno eto*

	Dyddiad yr ymweliad
Dim yn weddill	